

1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY
Yr Adran Seicoleg

Astudiaethau israddedig mewn

# Seicoleg

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Croeso | t.1 |
| Ein cyrsiau | t.2 |
| Adnoddau a chyfleusterau | t.14 |
| Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg | t.16 |
| Cyflogadwyedd | t.16 |
| Blwyddyn mewn dwydiant | t.16 |
| Proffiliau myfyrwyr | t.18 |
| Cyfleoedd byd-eang | t.20 |
| Ymchwil yr adran | t.22 |
| Y Gymdeithas Seicoleg | t.23 |
| Sut i wneud cais | t.24 |


THE TIMES THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2024
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN YNG NGHYMRU

**Gwybodaeth bwysig**

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir am y rhaglenni gradd yn y llyfryn hwn yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w hargraffu (Rhagfyr 2023), ond fe allai newid. Cynghorir darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs, gan gynnwys ein gofynion mynediad, cyn gwneud cais, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.

# Croeso

Croeso i'r Adran Seicoleg yma ym Mhrifysgol Aberystwyth, ble rydym yn defnyddio ein gwybodaeth a'n brwdfrydedd dros Seicoleg i gynnig addysg ardderchog i chi gan rai o'r ymchwilwyr gorau yn eu maes. Rydym ymhlith y 5 uchaf ym Mhrydain am Ansawdd y Dysgu ym maes Seicoleg (Canllaw Prifysgolion Da, The Times and Sunday Times 2024).

Mewn lleoliad o brydferthwch eithriadol, a gyda'r berthynas agos rhwng staff yr adran a'n myfyrwyr, rydym yn parhau i dyfu o ran maint a statws.

Gyda lefelau uchel o fodlonrwydd myfyrwyr, flwyddyn ar ôl blwyddyn, rydym yn ymhyfrydu yn gweld ein myfyrwyr yn dysgu, herio a thyfu i fod yn Seicolegwyr y dyfodol. Rydym yn darparu amgylchedd dysgu ardderchog ar gyfer eich datblygiad academaidd a phersonol, ynghyd â chyfleoedd i astudio dramor am flwyddyn neu flwyddyn yn gweithio mewn diwydiant.

Mae Aberystwyth wedi'i lleoli ar lannau Bae Ceredigion ar arfordir gorllewinol Cymru, o fewn amgylchedd naturiol hyfryd. Mae'r lleoliad yn cynnig arfordir hyfryd gydag ehangder o rostiroedd a dyffrynnoedd coediog.

Mae'r hyn yr ydych yn ei astudio hefyd yn bwysig ac yn Aberystwyth rydym yn falch bod ein holl gyrsiau'n cael eu hachredu gan Gymdeithas Seicolegol Prydain - nod ansawdd a gydnabyddir yn eang gan gyflogwyr yn y maes proffesiynol ac sy'n rhoi cyfle i raddedigion ddod yn aelodau graddedig a/neu siartredig o'r gymdeithas.

Mae'r hyblygrwydd i allu dewis o amrywiaeth eang o fodiwlau yn golygu y gallwch deilwra eich dysgu i gyd-fynd â'ch diddordebau.

Cewch ragor o wybodaeth amdanom drwy ddarllen y llyfryn hwn.



**Yr Athro Nigel Holt**
**Pennaeth yr Adran**





# Ein cyrsiau

## Anrhydedd sengl


| | |
|---|---|
| Seicoleg | t.3 |
| Seicoleg a Chymdeithasaeg | t.4 |
| Seicoleg a Marchnata | t.6 |
| Seicoleg a Throseddeg | t.8 |
| Seicoleg ac Addysg | t.10 |
| Seicoleg gyda Chwnsela | t.11 |
| Seicoleg gyda Seicoleg Fforensig | t.12 |
| Graddau Cyfun | t.13 |




# Seicoleg

13 % ar gael drwy'r Gymraeg

the british psychological society

BSc (Anrh) | C800 | 3 blynedd

Mae ein gradd wedi'i hachredu gan Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS) a'i chynllunio i ddatblygu a llunio eich dealltwriaeth o'r meddwl ac o ymddygiad dynol. Ein hethos yw dysgu mewn ffordd sy'n caniatáu ichi ddatblygu gwybodaeth gysyniadol a damcaniaethol y gallwch ei defnyddio i ddatrys problemau mewn sefyllfaoedd go iawn. I'ch cefnogi i wneud hyn, mae ein gradd wedi ei hadeiladu o gylch pynciau craidd hanfodol ym maes seicoleg, sy'n sylfaen ar gyfer yr amrywiaeth o fodiwlau dewisol arbenigol yr ydym yn eu cynnig yn yr ail a'r drydedd flwyddyn.

Mae gan yr adran gyfleusterau addysgu ac ymchwil rhagorol, yn cynnwys labordai gydag amrywiaeth o gyfarpar ac offer. Gyda'r adnoddau hyn cewch ddatblygu'ch diddordebau a defnyddio technegau creadigol i ddatrys problemau trwy gydol eich gradd.

Byddwch yn elwa o:

- amrywiaeth eang o arbenigedd ymhlith ein staff sy'n weithredol o ran ymchwil
- cyfarpar tracio llygaid, electroenceffalogram (EEG), Biopac ac offer mesur ymddygiadol
- ffocws ar gymhwyso seicoleg
- graddau wedi'u hachredu'n llawn gan Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS) a chyfle i astudio dramor neu weithio ar leoliad mewn diwydiant yn rhan o'ch gradd
- astudio mewn adran sydd â hanes eithriadol o ran cyflogadwyedd myfyrwyr.

**Cyflogadwyedd**

Bydd gradd Seicoleg o Brifysgol Aberystwyth yn eich paratoi ar gyfer amrywiaeth o yrfaoedd, ac yn rhoi ichi gyfleoedd i hyfforddi ymhellach, yn cynnwys: seicoleg glinigol, addysgol, alwedigaethol, chwaraeon ac ymarfer corff; seicotherapi a chwnsela; gwaith cymdeithasol; gofal iechyd; adnoddau dynol; gwasanaeth cyngor gyrfaol; marchnata, cyhoeddi a hysbysebu.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Applications of Psychology
- Brain, Behaviour and Cognition
- Conceptual and Historical Issues in Psychology
- Designing Psychological Research Projects
- Cyflwyniad i Ddulliau Ymchwil mewn Seicoleg
- Introduction to Core Topics in Social and Individual Behaviour
- Personal Development and Organisational Behaviour.

**Yr ail flwyddyn:**

- Cognitive Psychology
- Qualitative Research Methods
- Dulliau Ymchwil Meintiol
- Social Psychology.

**Y flwyddyn olaf:**

- Behavioural Neuroscience
- Developmental Psychology and Individual Differences
- Prosiect Ymchwil Seicoleg.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y mae'n bosibl y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Forensic Psychology
- Evolutionary Psychology
- Seicoleg Iechyd
- Issues in Clinical Psychology
- Psychology of Language

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.

**Ar gael hefyd:**

| | |
|---|---|
| **WF7F** | Blwyddyn integredig mewn diwydiant. |
| **N1FW** | Blwyddyn integredig yn astudio dramor. |
| **C80F** | Blwyddyn sylfaen integredig. |

# Seicoleg a Chymdeithaseg

21 ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | LC38 | 3 blynedd

Bydd y radd mewn Seicoleg a Chymdeithaseg yn eich galluogi i gysylltu â damcaniaeth ac ymchwil seicolegol ac i archwilio sut y cymhwysir seicoleg i faterion personol a chymdeithasol yn y byd go-iawn. Bydd y cwrs hefyd yn gyfle ichi drafod agweddau personol a chymdeithasol ar brofiad dynol o wahanol safbwyntiau.

Ar y radd hon byddwch yn dysgu sut i bwyso a mesur syniadau, cysyniadau ac ymagweddau yn feirniadol ar draws yr holl bwnc ac o fewn elfennau penodol o Seicoleg a Chymdeithaseg. Bydd y cwrs hefyd yn canolbwyntio ar y cysylltiadau rhwng ymddygiad pobl a'r systemau cymdeithasol ehangach (yn cynnwys cymunedau, dinasoedd, a chenhedloedd) yr ydym yn byw ynddyn nhw. Byddwch yn dysgu sut i ymgymryd ag ymchwil annibynnol, gan gymhwyso ystod o sgiliau yn ymwneud â chasglu, dadansoddi a chyflwyno data. Byddwch hefyd yn dysgu sut i ddefnyddio'r cysyniadau allweddol sy'n gysylltiedig â Chymdeithaseg mewn sefyllfaoedd go iawn, a datblygu eich sgiliau cyflogadwyedd.

Byddwch yn elwa o:

- elwa ar amrywiaeth eang o arbenigedd ymhlith ein staff sy'n weithredol o ran ymchwil
- defnyddio cyfarpar tracio llygaid, electroenceffalogram (EEG), ac offer mesur ffisiolegol ac ymddygiadol
- manteisio ar ystod o ddosbarthiadau ymarferol ac ymarferion maes ar draws y ddwy ddisgyblaeth
- dysgu yn sgil prosiectau ymchwil byw fydd yn eich galluogi i feithrin dealltwriaeth o'r byd cymdeithasol o safbwynt damcaniaethol ac empirig.

**Cyflogadwyedd**

Bydd astudio Seicoleg a Chymdeithaseg yn rhoi ichi sylfaen gadarn i allu ystyried ystod eang o yrfaoedd mewn meysydd yn cynnwys y cyfryngau, gwaith cymdeithasol, datblygu rhyngwladol, ymgysylltu â chymdeithas a'r gwasanaeth sifil, ymhlith eraill.

Mae ein graddedigion wedi mynd ymlaen i weithio ym maes yr heddlu, iechyd a gofal cymdeithasol, polisi cymdeithasol (yn cynnwys tai cyhoeddus, gwaith cymdeithasol, gweinyddu llywodraeth leol, a'r sector gwirfoddol), rheolaeth, newyddiaduraeth, cysylltiadau cyhoeddus, dysgu ac ymchwil.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Cyflwyniad i Ddulliau Ymchwil mewn Seicoleg
- Introduction to Core Topics in Social and Individual Behaviour
- Understanding Sameness and Difference
- Brain, Behaviour and Cognition
- Key Concepts in Sociology
- Place and Identity.

**Yr ail flwyddyn:**

- Dulliau Ymchwil Meintiol
- Cognitive Psychology
- Understanding (in)equality and (in)justice
- Qualitative Research Methods
- Social Psychology
- Introduction to Social Theory.

**Y flwyddyn olaf:**

- Psychology Research Project
- Behavioural Neuroscience
- Everyday Social Worlds
- Developmental Psychology.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** 40% gwaith cwrs, 60% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.



# Seicoleg a Marchnata

36 ar gael drwy'r Gymraeg

the british psychological society CIM The Chartered Institute of Marketing

## BSc (Anrh) | NC58 | 3 blynedd

Bydd y radd Seicoleg a Marchnata yn eich galluogi i ymchwilio i ymddygiad siopwyr a sut mae pobl yn penderfynu beth i'w brynu: sut mae strategaethau marchnata yn gallu dylanwadu ar y berthynas rhwng y prynwr a'r busnes, a sut mae'r cyfryngau cymdeithasol yn cael effaith ar ymddygiad siopwyr ar-lein.

Trwy gydol y cwrs, bydd eich astudiaeth o ymddygiad pobl a'u harferion siopa o safbwynt seicolegol yn sail i'ch sgiliau fel darpar weithiwr ym myd marchnata, ac yn ategu'ch gwybodaeth gynyddol am ddulliau, damcaniaethau a chysyniadau marchnata. Bydd y cyfle i ymgymryd â phrosiect gyda chleientiaid go iawn yn caniatáu ichi ddefnyddio'r theori y buoch yn ei hastudio mewn modd ymarferol i gryfhau'ch galluoedd ymgynghori proffesiynol.

Byddwch yn elwa o:

- amrywiaeth eang o arbenigedd ymhlith ein staff, sy'n weithgar ym maes ymchwil
- cyfarpar tracio llygaid, electroenceffalogram (EEG), Biopac ac offer mesur ymddygiadol
- astudio am radd sydd wedi'i hachredu gan Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS) a'r Sefydliad Marchnata Siartredig
- deallusrwydd rhyngddisgyblaethol o'r farchnad - rhywbeth y mae cyflogwyr yn galw amdano'n gynyddol.

**Cyflogadwyedd**
Bydd y radd mewn Seicoleg a Marchnata'n rhoi ichi sylfaen gadarn ar gyfer gyrfa broffesiynol ym myd Marchnata. Mae llawer o'n graddedigion wedi mynd i amrywiaeth o yrfaoedd, yn cynnwys: rheoli brand; marchnata digidol; ymchwil marchnata; rheoli cyfathrebiadau a'r cyfryngau cymdeithasol; cynllunio a hysbysebu yn y cyfryngau; cyfathrebiadau marchnata corfforaethol; yn ogystal â dadansoddi ymddygiad siopwyr.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Brain, Behaviour and Cognition
- Fundamentals of Management and Business
- Introduction to Core Topics in Social and Individual Behaviour
- Cyflwyniad i Ddulliau Ymchwil mewn Seicoleg
- Marketing Principles and Contemporary Practice.

**Yr ail flwyddyn:**

- Cognitive Psychology
- Consumer and Buyer Behaviour
- Marketing Management
- Qualitative Research Methods
- Dulliau Ymchwil Meintiol
- Social Psychology.

**Y flwyddyn olaf:**

- Behavioural Neuroscience
- Developmental Psychology
- Digital Marketing
- Marketing and Digital Marketing Communication
- Prosiect Ymchwil Seicoleg.


I gael gwybodaeth am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:**
60% gwaith cwrs, 40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.



# Seicoleg a Throseddeg

43 % ar gael drwy'r **Gymraeg**

the british psychological society

## BSc (Anrh) | CM89 | 3 blynedd

Mae'r radd gyfun mewn Seicoleg a Throseddeg yn cyfuno dau bwnc cydgysylltiedig yn effeithiol er mwyn i chi gael dysgu am agweddau damcaniaethol ar droseddu o safbwynt cymdeithaseg, athroniaeth a seicoleg.

Cewch astudio pam mae pobl yn troseddu a goblygiadau cymdeithasol a diwylliannol troseddu, gan gyfeirio'n agos at y meddwl troseddol, er mwyn dysgu a datblygu'r sgiliau hollbwysig sydd eu hangen i fynd i weithio yn y maes hwn. Mae'r radd hon, sydd wedi'i hachredu gan Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS), hefyd ar gael gyda blwyddyn mewn diwydiant, a fyddai'n rhoi cyfle ichi ennill sgiliau newydd, rhwydweithio â chyflogwyr posibl a datblygu'r arbenigedd sydd ei angen i weithio mewn diwydiannau cystadleuol.

Byddwch yn elwa o:

- astudio mewn amgylchedd cefnogol sy'n rhoi'r pwyslais ar y myfyrwyr – mae ein staff academaidd, cynorthwyol a thechnegol yma i chi bob cam o'r ffordd
- gallu manteisio ar arbenigedd staff mewn dwy adran sy'n weithgar ym maes ymchwil
- agwedd arloesol at ddysgu ac addysgu – mae gan yr Adran gyfleusterau ymchwil modern ac arloesol yn ogystal â mannau dysgu o'r radd flaenaf i fyfyrwyr.

**Cyflogadwyedd**

Bydd ein gradd BSc Seicoleg a Throseddeg yn rhoi sylfaen gadarn i ystyried gyrfa yn y proffesiynau cymdeithasol a gwaith ieuenctid, a bydd yn rhoi sgiliau arbenigol a gwybodaeth berthnasol ar gyfer gyrfa mewn lleoliad cyfiawnder troseddol (ee yr heddlu neu'r gwasanaeth prawf neu garchardai). Mae ein graddedigion wedi dilyn gyrfaoedd eraill hefyd, yn cynnwys seicoleg glinigol, addysgol, alwedigaethol, chwaraeon ac ymarfer corff; seicotherapi a chwnsela; gwaith cymdeithasol; gofal iechyd; adnoddau dynol; gwasanaeth cyngor gyrfaol; marchnata, cyhoeddi a hysbysebu.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Brain, Behaviour and Cognition
- Crime, Control and Prevention*
- Cyflwyniad i Droseddeg
- System Cyfreithiol a Chyfiawnder Troseddol
- Cyflwyniad i Ddulliau Ymchwil mewn Seicoleg
- Introduction to Core Topics in Social and Individual Behaviour.

**Yr ail flwyddyn:**

- Cognitive Psychology
- Qualitative Research Methods
- Dulliau Ymchwil Meintiol
- Social Psychology.

**Y flwyddyn olaf:**

- Behavioural Neuroscience
- Developmental Psychology and Individual Differences
- Prosiect Ymchwil Seicoleg.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Contemporary Issues in Criminology
- Crime & Punishment in Historical Perspective
- Criminal Law
- Critical Perspectives on Imprisonment
- Drugs and Crime
- Police, Policing and Society
- Principles of Evidence
- Psychological Explanations of Criminal Behaviour
- Psychology and Crime
- Treatment and Rehabilitation of Offenders
- Youth Justice.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.

**Ar gael hefyd:**
**A1C6** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.





# Seicoleg ac Addysg

60% ar gael drwy'r Gymraeg

the british psychological society

## BSc (Anrh) | CX80 | 3 blynedd

Mae'r radd gyfun hon mewn Seicoleg ac Addysg, sydd wedi'i hachredu gan Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS), yn cynnig ichi gyfle i astudio maes arbenigol lle y gall gwybodaeth yn un o'r disgyblaethau fod o gymorth uniongyrchol i ddeall a chymhwyso gwybodaeth yn y llall.

Yn ystod y radd hon byddwch yn datblygu dealltwriaeth fwy trylwyr o ddatblygiad gwybyddol a chymdeithasol mewn pobl, o blentyndod ymlaen. Fe gewch gyfle i astudio ac ystyried yr amgylcheddau dysgu lle mae'r datblygiad hwn yn digwydd, yn ogystal ag ymdrin â'r ffordd y mae polisi ac ymarfer addysgol yn ategu'r rhain.

Hefyd, cyhyd â'ch bod yn bodloni'r gofynion mynediad, cewch warant o gyfweliad ar gyfer y cwrs TAR Cynradd yn Aberystwyth.

Byddwch yn elwa o:

- bod yn rhan o ddwy adran gefnogol iawn - yr Adran Seicoleg a'r Ysgol Addysg
- dull arloesol o ddysgu ac addysgu gyda chymorth staff a chanddynt ddiddordebau ymchwil gweithredol
- adnoddau ymchwil mewnol modern a mannau dysgu i'r myfyrwyr.

**Sylwch: Gall fod angen gwiriad DBS (Datgelu a Gwahardd) neu wiriad cyfatebol er mwyn gallu astudio rhai modiwlau ar y radd hon.**

**Cyflogadwyedd**

Bydd y radd Seicoleg ac Addysg o Brifysgol Aberystwyth yn eich paratoi ar gyfer amrywiaeth o yrfaoedd, ac yn rhoi ichi ystod eang o gyfleoedd i astudio ymhellach, yn cynnwys seicoleg glinigol, addysgol, alwedigaethol, chwaraeon ac ymarfer corff; seicotherapi a chwnsela; gwaith cymdeithasol; gofal iechyd; adnoddau dynol; gwasanaeth cyngor gyrfaol; marchnata, cyhoeddi a hysbysebu.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Brain, Behaviour and Cognition
- Cyflwyniad i Ddulliau Ymchwil mewn Seicoleg
- Introduction to Core Topics in Social and Individual Behaviour
- Children's Development and Learning
- Y Dysgwr a'r Amgylchedd Dysgu.

**Yr ail flwyddyn:**

- Cognitive Psychology
- Seicoleg Dysgu a Meddwl
- Qualitative Research Methods
- Dulliau Ymchwil Meintiol
- Social Psychology.

**Y flwyddyn olaf:**

- Behavioural Neuroscience
- Gwerthuso ac Adlewyrchu ar Sgiliau Dysgu yn Gritigol
- Developmental Psychology
- Prosiect Ymchwil Seicoleg.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Children's Rights
- Communication
- Emotional and Social Development
- Mathematical Development in the Early Years
- Special Educational Needs.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** 70-80% gwaith cwrs a 20-30% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.



# Seicoleg gyda Chwnsela

5% ar gael drwy'r Gymraeg

the british psychological society

## BSc (Anrh) | C843 | 3 blynedd

Mae'r radd Seicoleg gyda Chwnsela yn cyfuno astudiaeth o gysyniadau seicolegol craidd ag elfennau o wybodaeth a sgiliau sy'n ymwneud â chwnsela, er mwyn datblygu eich dealltwriaeth o ymddygiad dynol ac ymagweddau i ddarparu cymorth seicolegol drwy gwnsela.

Bydd y radd hon yn rhoi ichi sgiliau hyblyg a hynod ddeniadol ar gyfer y gweithle. Mae hefyd yn gam delfrydol tuag at yrfa mewn cwnsela, seicotherapi, seicoleg glinigol a seicoleg iechyd. Dylid nodi na fydd y radd hon yn golygu eich bod yn cymhwyso fel ymarferydd cwnsela.

Mae ein cyfleusterau wedi'u cynllunio i roi cymaint o brofiad ymarferol ichi â phosibl ac maent yn cynnwys labordai sydd wedi'u gosod â chamerâu a microffonau. Bydd yr asesu'n pwysleisio elfennau ymarferol y cwrs gan roi ichi flas o beth yw hi i weithio fel ymarferydd therapiwtig.

Byddwch yn elwa o:

- astudio am radd sy'n cael ei hachredu gan Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS)
- dysgu arbrofol mewn grwpiau bach, gan gysylltu theori ag ymarfer yn barhaus
- cael eich dysgu gan seicolegwyr siartredig a chwnselwyr/seicotherapyddion sy'n ymarfer, a fydd yn sicrhau bod y theori a'r ymarfer yn berthnasol i chi
- cyfleusterau sy'n cynnwys ystafelloedd arsylwi a chyfweld gydag offer camera a sain, sy'n caniatáu cynnal sesiynau i ymarfer sgiliau ymchwilio, cyfweld, a chwnsela, a'r rheiny'n cael eu recordio.

**Cyflogadwyedd**

Mae ein gradd BSc Seicoleg gyda Chwnsela yn sylfaen ragorol os ydych yn ystyried gyrfa ym maes gofal cymdeithasol neu'r proffesiynau gofal. Mae'r radd wedi'i hachredu gan Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS) a fydd yn caniatáu ichi fynd ymlaen i hyfforddiant ar lefel uwchraddedig neu broffesiynol mewn seicoleg glinigol a chwnsela. Mae ein graddedigion Seicoleg wedi dod o hyd i waith mewn amrywiaeth o feysydd gyrfa, yn cynnwys: seicoleg glinigol, addysgol, alwedigaethol, chwaraeon ac ymarfer corff; seicotherapi a chwnsela; gwaith cymdeithasol; gofal iechyd; adnoddau dynol; gwasanaeth cyngor gyrfaol; marchnata, cyhoeddi a hysbysebu.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Brain, Behaviour and Cognition
- Conceptual and Historical Issues in Psychology
- Cyflwyniad i Ddulliau Ymchwil mewn Seicoleg
- Introduction to Core Topics in Social and Individual Behaviour
- Personal Development and Organisational Behaviour
- Designing Psychological Research Projects
- Foundations of Counselling: Skills and Theory I.

**Yr ail flwyddyn:**

- Cognitive Psychology
- Qualitative Research Methods
- Dulliau Ymchwil Meintiol
- Social Psychology
- Issues in Clinical Psychology
- Seicoleg Iechyd
- Foundations of Counselling: Skills and Theory II.

**Y flwyddyn olaf:**

- Behavioural Neuroscience
- Developmental Psychology and Individual Differences
- Prosiect Ymchwil Cwnsela.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- 21st Century Self: Critical and Constructionist Approaches to Contemporary Personhood
- Psychology Critical Review
- Psychology of Language.

I gael rhagor o fanylion am y modiwlau dewisol sydd ar gael, gweler y rhestr gyfredol ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.

**Ar gael hefyd:**
Blwyddyn integredig mewn diwydiant *yn amodol ar gael ei gymeradwyo

# Seicoleg gyda Seicoleg Fforensig

20% ar gael drwy'r Gymraeg

the british psychological society

## BSc (Anrh) | C802 | 3 blynedd

Mae'r BSc Seicoleg gyda Seicoleg Fforensig ym Mhrifysgol Aberystwyth yn cynnig cyfle i fyfyrwyr i gael cipolwg ar agweddau beirniadol ar y maes seicoleg gymhwysol hwn, gan gynnwys deall sut mae pobl yn datblygu i fod yn droseddwyr ac ymddygiad troseddol, ymddygiad yn y llysoedd a phroffilio troseddwyr. Mae cymwysterau proffesiynol yn gofyn am sylfaen gadarn yng nghefndir seicoleg fforensig, ac mae llwybr israddedig achrededig Cymdeithas Seicolegol Prydain (y BPS) yn gonglfaen pwysig sy'n arwain at astudiaethau ôl-raddedig yn ddiweddarach. Mae'r astudiaethau hyn yn hanfodol i'r rhai sy'n ystyried ymgyrraedd at Ddoethuriaethau Fforensig a statws Seicolegydd Fforensig Siartredig.

Mae astudio Seicoleg gyda Seicoleg Fforensig yn caniatáu ichi archwilio cysyniadau allweddol ac ymchwil gymhwysol drwy fodiwlau pwrpasol a phrosiectau blwyddyn olaf ar thema fforensig dan ofal arolygwr. Byddwch yn astudio seicoleg fforensig ynghyd â modiwlau perthynol ychwanegol, megis rhai am gyffuriau ac ymddygiad a byddwch yn ysgrifennu traethawd hir ar thema fforensig. Mae llawer o staff yr adran yn cynnal ymchwil mewn lleoliadau fforensig, ac mae'r gwaith ymchwil hwn yn cynnwys prosiectau sydd wedi'u hariannu a'u cynnal ar y cyd â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, yr Heddlu a'r Swyddfa Gartref, a hynny mewn pynciau megis troseddau difrifol a threfnedig, cyfiawnder adferol a seiberdroseddu.

Byddwch yn elwa o:

- amrywiaeth eang o arbenigedd ymhlith ein staff sy'n weithredol o ran ymchwil
- ffocws ar gymhwyso seicoleg
- graddau wedi'u hachredu'n llawn gan Gymdeithas Seicolegol Prydain (BPS).

**Cyflogadwyedd**

Prif gyflogwr seicolegwyr fforensig yw Gwasanaeth Carchardai Ei Fawrhydi. Fodd bynnag, mae cyfleoedd hefyd ym maes cyfiawnder troseddol yn ehangach ac mewn mannau eraill. Fe allech gael eich cyflogi gan y Swyddfa Gartref, y Gwasanaeth Iechyd (mewn ysbytai arbennig ac unedau adsefydlu, gwasanaethau fforensig lleol ac ysbytai diogel), yr Heddlu, Gwasanaethau cymdeithasol, ymchwil, darlithio ac ymgynghoriaeth breifat.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Introduction to Core Topics in Social and Individual Behaviour
- Cyflwyniad i Ddulliau Ymchwil mewn Seicoleg
- Brain, Behaviour and Cognition
- Personal Development and Organisational Behaviour
- Designing Psychological Research Projects
- Introduction to Forensic Psychology
- Conceptual and Historical Issues in Psychology.

**Yr ail flwyddyn:**

- Cognitive Psychology
- Qualitative Research Methods
- Social Psychology
- Applied Forensic Psychology
- Quantitative Research Methods.

**Y flwyddyn olaf:**

- Behavioural Neuroscience
- Developmental Psychology
- Drugs and Behaviour
- Forensic Psychology Dissertation.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu dewis er mwyn datblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Nac oes.

**Ar gael hefyd:**
**C803** Blwyddyn integredig mewn diwydiant.



# Graddau Cyfun

| Pwnc | Ar gael gyda... | Gradd Gyfun |
|---|---|---|
| Seicoleg | Addysg | CX80 |
| | Busnes a Rheolaeth | NC18 |
| | Marchnata | NC58 |
| | Troseddeg | CM89, A1C6 |



# Adnoddau a chyfleusterau

**Cymorth gweinyddol:** ar gyfer ymholiadau mawr a mân

**Adnoddau llyfrgell:** mynediad at adnoddau dysgu seicoleg ar-lein ac all-lein a chyfnodolion

**Arweiniad ar Yrfaoedd:** byddwch yn derbyn cymorth a chyngor ar bob cam o'ch llwybr cynllunio gyrfa drwy sgyrsiau, gweithdai a sesiynau galw-heibio yn yr adran.

Technoleg, cyfarpar ac ystafelloedd:

- **Cyfarpar ymchwil bioffisegol rhagorol** - System BioPac
- **Cyfarpar tracio llygad diweddaraf** - System Tobii
- **Recordiadau gweithgarwch yr ymennydd** - System EEG 64 Sianel
- **Arsylwi ymddygiadol gan ddefnyddio drych dwyffordd a chamerâu** - System Reoli Fideo ac Ystafelloedd Golygu Fideo
- **Cynnal arbrofion lle mae'r sain yn gwanhau mewn amgylchedd tawel** - Siambr Anatseiniol
- **Cynnal arbrofion seicometrig ar iaith mewn amgylchedd sy'n gyfeillgar i blant** - Labordy Datblygiad Plant
- **Labordy cyffordus â system recordio osodedig** - Cyfweliadau a Thrafodaethau Grŵp
- **Ardal dawel i ysgrifennu nodiadau'r reecordiadau gyda thrawsgrifiad Olympus** - Ystafell Drawsgrifio
- **Paratoi bwyd ar gyfer arbrofion blasu ac arogli yn ein Bio-Gegin** - Ardal Paratoi Bwyd
- **Ardaloedd ar gyfer ymchwilio ar gyfrifiaduron neu astudio'n dawel** - Ciwbiclau Ymchwil



















# Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg

Fel Brifysgol, rydym yn falch i gynnig dewis o fodiwlau i chi y gellir eu dysgu'n rhannol neu'n llwyr drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, gall myfyrwyr gyflwyno unrhyw ddarn o waith cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg a chael cefnogaeth tiwtor sy'n medru'r Gymraeg.

Bydd ein cynlluniau gradd Seicoleg yn eich paratoi ar gyfer amrywiaeth o yrfaoedd, gan sicrhau bod gennych y profiadau a'r sgiliau trosglwyddadwy y bydd eu hangen arnoch yn y gweithle. Mae pob un o'n cynlluniau gradd hefyd yn gam tuag at gyfleoedd astudio pellach – graddau Meistr neu PhD – os oes yn well gennych hynny.

# Cyflogadwyedd

Bydd ein cynlluniau gradd Seicoleg yn eich paratoi am amrywiol yrfaoedd, ac yn sicrhau eich bod yn meddu ar y sgiliau trosglwyddadwy sy'n hanfodol yn y gweithle. Gall pob un o'n graddau hefyd gynnig llwybr at gyfleoedd pellach i astudio - Meistr neu PhD - os mai dyna yw eich dewis.

Mae gan yr Adran Seicoleg ffigurau cyflogadwyedd neu astudio pellach rhagorol ymhlith ei graddedigion, sy'n mynd i feysydd arbenigol fel Seicoleg Glinigol, Addysgol, Alwedigaethol a Chwaraeon ac Ymarfer Corff. Mae meysydd eraill yn cynnwys Seicotherapi, Cwnsela, Gwaith Cymdeithasol a Gofal Iechyd. Ceir cyfleoedd pellach i'n graddedigion seicoleg mewn amrywiol ddiwydiannau fel Hysbysebu/marchnata, Bancio ac yswiriant, Rheoli busnes, Gwaith elusennol, Addysg, meysydd yn gysylltiedig ag iechyd, Llywodraeth leol a chenedlaethol, Ymchwil marchnad, Gweinyddu'r cyfryngau, Gwleidyddiaeth, Adwerthu a gwerthu, Ysgrifennu arolygon, Dysgu, Therapi a Thwristiaeth.

# Blwyddyn mewn diwydiant


Mae ein graddau pedair blynedd gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant (ar gael mewn Seicoleg, Seicoleg a Throseddeg neu Seicoleg gyda Seicoleg Fforensig) yn gyfle gwych i gyfoethogi eich CV gyda phrofiad ymarferol a meddwl am y llwybr gyrfa yr hoffech ei ddilyn ar ôl graddio. Bydd rhoi theori ar waith yn ymarferol yn dod â'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu ar y cwrs yn fyw ac yn rhoi profiad gwerthfawr yn y gweithle i chi, gan wella eich cyfleoedd gyrfa ar ôl y brifysgol. Cynhelir y flwyddyn mewn diwydiant yn ystod eich trydedd flwyddyn, ac ar ôl hynny byddwch yn dod nôl i Aberystwyth i gwblhau eich gradd yn y bedwaredd flwyddyn.

Gellir cynnal lleoliadau blwyddyn mewn diwydiant mewn amrywiaeth o sectorau gan gynnwys iechyd, addysg, fforensig, llywodraeth a busnes. Mae lleoliadau ar gael ledled y DU (ac ymhellach) ond mae ein partneriaid gwirfoddol lleol yn cynnwys: Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Ysgol Gynradd Llwyn yr Eos, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Ceredigion ac amrywiaeth o elusennau lleol.









# Proffiliau myfyrwyr

## Simona

**Seicoleg (C800)**

Astudiais BSc Seicoleg ym Mhrifysgol Aberystwyth a mwynhau pob eiliad. Mae'n Brifysgol wych, mae ansawdd y dysgu o safon uchel iawn ac mae'r darlithwyr yn mwynhau dysgu eu modiwlau. Cefais gymorth hefyd i ddod o hyd i brofiad gwirfoddoli da a fu o fantais wrth imi chwilio am swydd. Ar ôl graddio, euthum yn syth i astudio ar gyfer gradd meistr mewn Seicoleg Glinigol ac lechyd, ac enillais radd gyda rhagoriaeth. Rwyf bellach yn weithiwr cymorth sy'n helpu pobl i feithrin sgiliau newydd fydd yn caniatáu iddynt fod yn fwy annibynnol a byw gydag urddas. Hefyd, mae gennyf swydd ran-amser fel darlithydd seicoleg mewn canolfan Siapaneaidd yn paratoi myfyrwyr Siapaneaidd ar gyfer y brifysgol. Mae fy mhrofiad yn Aberystwyth wedi fy mharatoi ar gyfer astudiaethau pellach a gyrfa drwy roi imi'r holl wybodaeth a sgiliau ymarferol angenrheidiol.

## Samjhana

**Seicoleg, gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant (WF7F)**

Rwy'n treulio fy Mlwyddyn mewn Diwydiant gyda Heddlu Swydd Bedford yn yr Adran Gwella'n Barhaus. Mae fy ngwaith prosiect wedi dod â mi i gysylltiad â gwahanol adrannau'r heddlu, wrth imi gwblhau cyfnodau mewn gwahanol adrannau er mwyn dysgu mwy am eu gwaith. Mae'r profiad ymarferol hwn o weithio yn yr Heddlu yn brofiad dysgu anhygoel, sy'n fy nghynorthwyo i wella a datblygu sgiliau a fydd o gymorth ar ôl graddio, ac wedi f'annog hefyd i feddwl ymhellach am fy niddordebau a'r hyn yr hoffwn ei wneud yn y dyfodol.

## Conor

**Seicoleg, gyda blwyddyn integredig yn astudio dramor (N1FW)**

Ym Mhrifysgol Bergen yng ngorllewin Norwy, roeddwn yn gallu profi ac ymdrochi mewn diwylliant ac amgylchedd addysgiadol gwahanol; gan gyfoethogi fy sgiliau academaidd a bywyd personol drwy roi cyfle cwbl unigryw imi - a newidiodd fy mywyd - mewn gwlad gyffrous a hardd.

## Melisa

**Seicoleg (C800)**

Enillodd Melisa Basol radd BSc mewn Seicoleg o Brifysgol Aberystwyth yng Ngorffennaf 2017 cyn mynd i Brifysgol Caergrawnt i astudio ar gyfer MPhil. Dechreuodd ei PhD mewn Seicoleg yng Ngholeg Penfro, Caergrawnt, yn yr hydref, 2018.

Mae Melisa yn un o blith 92 o fyfyrwyr sydd wedi ennill ysgoloriaeth ar ôl cael eu dewis o gyfanswm o 5,798 o ymgeiswyr. Dyfernir Ysgoloriaethau Gates Caergrawnt i'r bobl fwyaf eithriadol yn academaidd sy'n ymroi'n llwyr i gymdeithas o bob cwr o'r byd ac fe'u hystyrir yn  ysgoloriaethau uwchraddedig rhyngwladol mwyaf clodfawr Prifysgol Caergrawnt.

Dywedodd Melisa: "Mae'n anrhydedd i mi ymuno â chymuned o unigolion uchelgeisiol, tebyg i mi sy'n benderfynol o gael effaith. Ac er bod y gronfa hon yn glodfawr iawn ac yn hael, rwy'n ymwybodol na fyddai'n bosibl heb ymddiriedaeth a chefnogaeth ddiamod fy adran yn Aber. Mae'r hyn rwyf wedi'i gyflawni ond yn dyst i'r arweiniad a'r anogaeth a dderbyniais yn ystod fy ngradd israddedig ac ar ôl hynny."



## Camilla

**Seicoleg (C800)**

Ar ôl graddio dechreuais weithio fel seicolegydd cynorthwyol ar gyfer Seicolegydd Clinigol mewn cwmni preifat; rhoddodd y swydd hon gyfle imi ehangu fy ngwybodaeth ymchwil, a phrofi seicometrig yn benodol, ac arsylwi gwahanol dechnegau therapiwtig. Ar ôl yr interniaeth hon, gweithiais fel Seicolegydd Cynorthwyol ar gyfer gwasanaeth IAPT, gydag ymarferwyr therapi gwybyddol ymddygiadol a Seicolegwyr Cwnsela. Dysgais am bwysigrwydd asesiadau clinigol ac effeithiolrwydd therapi EMDR (therapi dadsensiteiddio ac ailbrosesu drwy symud y llygaid) wrth leihau trawma. Cychwynnais ar Ddoethuriaeth Broffesiynol mewn Seicoleg Cwnsela ym Mhrifysgol Regents ac rwy'n gweithio fel ymarferydd dan hyfforddiant gyda chleientiaid sy'n gwella o gaethiwed i alcohol a chyffuriau, yn Ysbyty Cymunedol Edgware, Llundain.

## Lisa

**Seicoleg (C800)**

Rwy'n cael fy nghyflogi gan y Bwrdd Iechyd Lleol i gynllunio a chomisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a chefais fy nerbyn i wneud BSc Seicoleg ym Mhrifysgol Aberystwyth. Gan fy mod i'n gweithio'n amser llawn, astudiais yn rhan-amser dros sawl blwyddyn. Yn ystod y cyfnod hwn, dysgais wybodaeth am fy newis bwnc a hefyd sgiliau a fu'n ddefnyddiol iawn megis dealltwriaeth well a manylach am ddata ac ystadegau a gwella fy sgiliau fy hun wrth ymchwilio a chyflwyno gwybodaeth. Roedd pwnc fy nhraethawd hir yn uniongyrchol gysylltiedig â'm gwaith a chafodd ei dderbyn fel tystiolaeth mewn strategaeth comisiynu camddefnyddio sylweddau ranbarthol a fydd yn cael ei defnyddio i bennu cyfeiriad ariannu am gyfnod o 3-5 mlynedd.

# Cyfleoedd byd-eang

**Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig amrywiaeth cyffrous o opsiynau ichi fynd dramor tra byddwch yn astudio am eich gradd.**

**Bydd ein tîm Cyfleodd Byd-eang yn eich helpu chi i nodi'r opsiwn gorau.**

## Manteision astudio a gweithio dramor

- Rhoi hwb i'ch hyder
- Gwella'ch sgiliau cyfathrebu, rhyngddiwylliannol a rhyngbersonol
- Meithrin eich hyblygrwydd a'ch gwytnwch
- Eich helpu i fod yn agored i gyfleoedd rhyngwladol
- Buddiol i'ch gyrfa.





**Blwyddyn neu semester dramor**

Rydym yn cynnig ystod o raddau sy'n cynnwys blwyddyn integredig yn eich trydedd flwyddyn lle cewch astudio dramor mewn prifysgol sy'n un o'n partneriaid. Bydd myfyrwyr iaith hefyd yn treulio eu trydedd flwyddyn yn astudio neu'n gweithio yn yr iaith y maent yn ei hastudio.

Gall myfyrwyr ar y rhan fwyaf o gyrsiau gradd eraill fynd dramor am semester yn ystod eu hail flwyddyn astudio.

**Gweithio dramor yn ystod eich blwyddyn mewn diwydiant**

Os ydych chi'n astudio gradd sy'n cynnwys blwyddyn mewn diwydiant, gallwch ddewis treulio'r flwyddyn gyfan neu ran o'r flwyddyn yn gweithio dramor, os yw eich adran yn cymeradwyo hyn.

**Rhaglenni byrion**

Gall treulio cyfnod dramor, hyd yn oed am gyfnod byr, fod yn brofiad gwirioneddol werthfawr. Rydym yn cynnig cyfnodau byrion lle gallwch astudio, gweithio neu wirfoddoli dramor, o dri diwrnod i wyth wythnos.

**Cefnogaeth**

Bydd y tîm Cyfleoedd Byd-eang yn eich helpu i baratoi ar gyfer eich profiad dramor. Mae'r cymorth yn cynnwys:

- Digwyddiadau cyn ymadael i sicrhau eich bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl ar ôl ichi gyrraedd. Byddwn hefyd yn sicrhau bod gennych yr holl ddogfennau teithio angenrheidiol. Byddwch hefyd yn dysgu sut i wneud y gorau o'ch taith a sut i gael cymorth os bydd ei angen arnoch chi.
- Bydd gweithdai yn digwydd ar ôl ichi ddychwelyd sy'n cael eu cynnal ar y cyd â'r Gwasanaeth Gyrfaoedd. Bydd y rhain yn eich helpu i fyfyrio ar eich profiadau a'u defnyddio yn eich bywyd bob dydd ar ôl ichi ddod adref. Byddant yn eich helpu i ystyried sut i sôn am eich profiad dramor mewn ceisiadau am swyddi ac mewn sgyrsiau â chyflogwyr y dyfodol.

**Cyllid**

Mae arian ar gael drwy gynlluniau llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru sy'n hyrwyddo astudio a gweithio dramor i gefnogi myfyrwyr cymwys â chostau byw a theithio.

Mae Cronfa Cyfleoedd Ewropeaidd Aberystwyth, a sefydlwyd drwy rodd hynod hael gan un o gyn-fyfyriwr y Brifysgol, yn unigryw i Aberystwyth ac mae'n darparu cymorth ariannol i helpu â gweithgareddau byrion yn yr Undeb Ewropeaidd.

Mae cyllid ychwanegol ar gael i fyfyrwyr o grwpiau difreintiedig.















# Ymchwil

## Llinellau Cyffuriau - Diogelwch i Bobl Ifainc Agored i Niwed yng Nghymru

**Dr Gareth Norris**
**(Uwch Ddarlithydd Seicoleg)**

Mae'n bosibl bod nifer o bobl wedi gweld neu glywed am 'Linellau Cyffuriau' yn y newyddion. Yn ddiweddar, gwnaeth Dr Gareth Norris, o Adran Seicoleg Prifysgol Aberystwyth gyflwyno adroddiad i'r Swyddfa Gartref ar ôl gwerthuso ymyrraeth â phobl ifainc yng Ngheredigion, Cymru, sydd mewn perygl o fod yn rhan o Droseddau Difrifol a Chyfundrefnol.

Er gwaethaf lefelau cymharol isel o drosedd yng Ngheredigion, gall nifer o bobl ifainc agored i niwed fod mewn perygl o gael eu hecsploetio gan gangiau cyffuriau a grwpiau trosedd cyfundrefnol eraill; roedd yr ymyrraeth hon wedi'i anelu at bobl ifainc ym mlynyddoedd ysgol 6 a 7 i roi'r sgiliau iddynt adnabod a gwrthsefyll erledigaeth bosibl.

Roedd y sesiynau'n cynnwys ymdrin ag emosiynau, y cyfryngau cymdeithasol a diogelwch ar y rhyngrwyd, a chamddefnyddio sylweddau. Mae'r gwaith yn ffurfio rhan o un o Astudiaethau Achos Effaith yr Adran ar gyfer ymarfer asesu'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (FfRhY, 2021).




Dr Gwyn Griffith (Chwith), Pennaeth Cyfiawnder Ieuenctid Cyngor Sir Ceredigion a Dr Gareth Norris o Adran Seicoleg Prifysgol Aberystwyth.





# Y Gymdeithas Seicoleg

## Nosweithiau Cymdeithasol

Ein nod ar gyfer ein nosweithiau cymdeithasol yw darparu awyrgylch hamddenol perffaith er mwyn cwrdd a gwneud ffrindiau ag unigolion sy'n debyg i ni. Mae llwyth o syniadau gan aelodau'r pwyllgor, a chynhelir ein nosweithiau cymdeithasol fel arfer ar nos Fawrth; ceir thema wahanol i bob un, ac rydym yn postio digwyddiad ar y grŵp Facebook ymlaen llaw yn ogystal ag anfon ebyst er mwyn rhoi amser i bawb baratoi! Mae'r digwyddiadau ar nos Fawrth fel arfer yn dilyn llwybr penodol o dafarndai a chlybiau yn y dref ac yn golygu yfed, fel rheol, ond mae croeso i bobl sydd ddim yn yfed hefyd! Rydym yn ceisio sicrhau cydbwysedd hefyd drwy gynnal Nosweithiau Sobor fel nosweithiau ffilm neu gemau yn rheolaidd er mwyn cynnig rhywbeth i bawb! Croesewir syniadau ac rydym yn gwneud ein gorau i wrando a darparu. Rydym hefyd yn trefnu dau bryd o fwyd yn ystod y flwyddyn; y naill adeg y Nadolig a'r llall ar ddiwedd y tymor.

## Academaidd

Fel cymdeithas, mae gennym gysylltiadau agos iawn â'r adran Seicoleg. O ganlyniad, rydym yn gallu cynnal grwpiau astudio ar adegau cyflwyno traethodau ac arholiadau, ac yn aml bydd aelodau'r adran yn galw heibio i roi help llaw. Mae gennym hefyd grŵp penodol ar Facebook sy'n llawn o bobl sy'n fwy na pharod i helpu drwy ateb cwestiynau a fydd yn codi yn ystod eich astudiaethau

# Sut i wneud cais

Pan fyddwch wedi penderfynu pa gwrs yr hoffech ei astudio a ble, gallwch ddechrau'r broses o ymgeisio. Dyma gipolwg byr o'r broses a'n gweithdrefnau yma yn Aberystwyth.

## 1 Gwneud cais trwy UCAS.com

Dyddiad cau 31 Ionawr. Côd sefydliad Prifysgol Aberystwyth: A40

**GAIR I GALL:** Cewch rif UCAS 10 digid. Cadwch hwn wrth law oherwydd gofynnir am y rhif nifer o weithiau.

## 2 Bydd y brifysgol yn ystyried eich cynnig

**GAIR I GALL:** Defnyddiwch Hwb UCAS i gadw llygad ar eich cais. Yn Aberystwyth rydym yn ceisio gwneud penderfyniad o fewn 4 wythnos.

## 3 Bydd y cynnig i'w weld ar Hwb UCAS

## 4 Penderfynwch ble i fynd

Pan fyddwch wedi cael eich holl gynigion, bydd angen i chi benderfynu i ba brifysgol yr hoffech fynd, o fewn amser penodol. Dyma pryd y bydd angen i chi nodi pa brifysgolion fydd eich dewisiadau cadarn ac wrth gefn.

## 5 Llety

Pan fyddwch wedi gwneud eich dewis cadarn/wrth gefn gallwch wneud cais am lety (Ebrill ymlaen).

## 6 Diwrnod y canlyniadau

Bydd Hwb UCAS yn cadarnhau eich cynnig o le. Os nad ydych yn sicr beth yw'r cynnig, cysylltwch â'r brifysgol yn uniongyrchol. Os nad ydych yn cael y graddau yr oeddech wedi gobeithio amdanynt, efallai yr hoffech ystyried y broses Glirio.

## 7 Dechreuwch bacio!








Yr Adran Seicoleg,
Adeilad P5,
Prifysgol Aberystwyth,
Campws Penglais,
Aberystwyth,
Ceredigion, SY23 3UX

+44 (0) 1970 62 8444

psychology@aber.ac.uk

/PsychAtAber

/psychataber

@PsychAtAber

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan
Marchnata a Denu Myfyrwyr,
Prifysgol Aberystwyth 2023.

Argraffwyd ar bapur
wedi'i ailgylchu 100%